LGBC7M/2002

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 10fed Hydref AM 5.00pm YNG NGWESTY WOLFCASTLE, CASBLAIDD, SIR BENFRO

Yn bresennol

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. D Carr
	Mrs. M Menzies
	Mrs. C Thomas

Ar ddechrau'r cyfarfod croesawodd y Cadeirydd Mrs. Menzies a Mrs.Thomas i'w cyfarfod cyntaf o'r Comisiwn.

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 3ydd Medi 2002.

1.1 Cymeradwywyd y cofnodion.

2. Materion yn Codi.

2.1 Ni oedd unrhyw faterion, yn codi ar wahân i'r rheini a drafodir o dan yr eitemau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

3. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch – Adroddiad ar y Cynigion Drafft.

3.1 **Nododd y cyfarfod y** cynrychioliad diweddar gan Gyngor Sir Powys mewn perthynas â'r arolwg hwn, a **chytunwyd** y dylid trin y cynrychiadau fel un a oedd y tu allan i'r terfyn amser. **Cytunwyd hefyd** y dylid trin y llythyr fel cynrychioliad yn gwneud sylw ar y cynigion drafft yn yr ymarfer i baratoi'r adroddiad a'r cynigion terfynol.

3.2 **Cytunwyd** i fabwysiadu a chyhoeddi'r adroddiad drafft.

4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – Adroddiad ar y Cynigion Drafft.

4.1 **Cytunwyd** i gymeradwyo a chyhoeddi'r adroddiad drafft.

5. Arolwg o'r ffiniau rhwng Cymunedau amrywiol yn Ninas a Sir Caerdydd – Adroddiad ar y Cynigion.

5.1 **Cytunwyd** i gymeradwyo a chyhoeddi'r adroddiad ar y cynigion.

6. Arolwg o'r Siroedd Cadwedig yng Nghymru – Cynrychioliadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynigion Drafft.

6.1 Wrth ystyried y cynigion terfynol ar gyfer arolwg y Comisiwn o'r siroedd cadwedig yng Nghymru, **cytunwyd** nad oedd yr effaith bosibl ar gyrff eraill, fel y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru, yn dilyn cyhoeddi'r cynigion, o fewn cwmpas y Comisiwn i'w hystyried.

6.2 **Cytunwyd** na dderbyniwyd digon o dystiolaeth berthnasol yn y cynrychioliadau i ddarbwyllo'r Comisiwn i ymadael â'i gynigion drafft.

6.3 **Cytunwyd** i dderbyn a chyhoeddi'r cynigion terfynol.

7. Cais am arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Caerffili a Bwrdeistref Sirol Casnewydd yn ardal Cymuned Rhisga.

7.1 Derbyniodd y Comisiwn gais iddo gynnal arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Caerffili a Bwrdeistref Sirol Casnewydd yn ardal Cymuned Rhisga, gyda'r bwriad o drosglwyddo Cymuned Rhisga o Gaerffili i Gasnewydd.

7.2 **Cytunwyd** cyn rhoi ystyriaeth bellach i'r cais, y dylai'r Comisiwn geisio barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd, a Chyngor Cymuned cyfagos Rogerstone. Nid oedd modd ceisio barn o Rhisga ar hyn o bryd gan nad oes Cyngor Cymuned wedi'i sefydlu yno.

8. Adroddiad Cyllideb Hanner Blwyddyn.

8.1 **Nodwyd hyn a chytunwyd arno**

8.2 Gwnaed cais gan y Cadeirydd y dylai adroddiadau cyllideb yn y dyfodol nodi'r costau ysgrifenyddiaeth a llety a gaiff eu dosrannu i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

9. Bwrdd Arolygu Prosesau Ffiniau – Adroddiad ar Gynnydd

9.1 Derbyniodd y Comisiwn yr adroddiad ar gyfarfod diweddar y Bwrdd Arolygu Prosesau Ffiniau a'r papur a gynhyrchwyd yn dilyn y cyfarfod.

9.2 **Nodwyd** y byddai gan gynigion yn y papur lefelau amrywiol o effaith ar waith y Comisiwn, yn enwedig o ran cynhyrchu a defnyddio data electronig mewn perthynas â'r System Wybodaeth Ddaearyddol.

9.3 Enghraifft o un o'r meysydd datblygu oedd casglu data ar wardiau cymunedau. Yng Nghymru, ni chasglwyd hyn gan yr awdurdodau perthnasol, a **chytunwyd** y dylai'r Comisiwn geisio cyngor a chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdodau Lleol (o bosibl trwy'r Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) i ddatblygu system i gasglu'r data hwn i'w ddefnyddio mewn arolygon etholaethol a gynhelir gan y Comisiwn yn y dyfodol.

9.4 Roedd argymhelliad arall yn cynnwys defnyddio cynorthwy-ydd digidol personol (PDA) gyda'r gallu i ddefnyddio'r System Wybodaeth Ddaearyddol. **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifenyddiaeth gael PDA o'r fath maes o law.

10. Unrhyw Fater Arall.

10.1 Gosod cyswllt Cyfrifiadur Cyflym Iawn gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

10.1.1 **Nodwyd** bod BT/Marconi yn dal heb orffen gosod y ceblau cyflym iawn i alluogi'r Comisiwn i gysylltu â system OSIRIS Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

10.1.2 Gan na chafwyd dyddiad cwblhau gan BT/Marconi, a chan bod projectau erbyn hyn yn dioddef o ganlyniad i hyd yr oedi yng nosod y ceblau, **cytunwyd** anfon llythyr cwyno cryf gan y Cadeirydd at Brif Weithredwr British Telecom.

10.2 Gwefan

10.2.1 **Nodwyd** y cafwyd anawsterau yn cael mynediad i wefan y Comisiwn ers cyflwyno cyfeiriad gwefan Cymraeg newydd. **Nodwyd hefyd** y bu'r Ysgrifenyddiaeth mewn cysylltiad gydag Is Adran Systemau Gwybodaeth Busnes y Cynulliad (BIS) sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith o gynnal Gwefan y Comisiwn i geisio datrys y sefyllfa.

10.2.2 Gobeithiwyd y byddai'r broblem yn cael ei datrys cyn hir. **Cytunwyd** i fynd ar ôl BIS i ailgydio yng ngweithrediad arferol y wefan cyn gynted â phosibl.

10.3 Cyfarfod Cyswllt Rhyng-Gomisiynol

10.3.1 Cynhelir y cyfarfod Cyswllt Rhyng-Gomisiynol nesaf yn swyddfeydd y Comisiwn Etholiadol ar 20fed Tachwedd 2002.

10.3.2 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cael ei gynrychioli gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.

10.3.3 **Cytunwyd** nad oedd gan y Comisiwn unrhyw eitemau agenda penodol i'w codi ar gyfer y cyfarfod y tro hwn.

10.4 Cyfarfod Blynyddol

10.4.1 **Nodwyd** bod yr holl drefniadau gweinyddol ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Comisiwn mewn grym erbyn hyn.

10.4.2 Roedd y Comisiynwyr yn siomedig i nodi bod y siaradwr gwadd o Adran Noddi'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi tynnu'n ôl yn hwyr yn y dydd. **Cytunwyd** y

byddai'r Ysgrifennydd yn defnyddio nodiadau a ddarparwyd cyn hynny i gyflwyno'r eitem yn y Cyfarfod Blynyddol.